Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Bryn Meddyg Care Home Ltd**

**Bryn Meddyg**
**Caernarfon**
**LL54 5AG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/01/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Bryn Meddyg Care Home Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | BRYN MEDDYG CARE HOME LTD |
| Lleoedd cofrestredig | 34 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 22 Tachwedd 2021Cliciwch neu pwyswch yma i gynnwys testun. |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael yng nghartref gofal Bryn Meddyg. Mae'r staff gofal yn wybodus, yn dangos parch, ac yn ofalgar, ac maent yn diwallu anghenion gofal y bobl mewn modd urddasol. Mae'r bobl yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau. Gall ymwelwyr ddod i weld y bobl a gall y bobl ddewis sut yr hoffent dreulio eu diwrnod. Gofynnir i ymwelwyr barchu'r amseroedd bwyta.

Mae proses recriwtio yn mynd rhagddi. Rhaid gwella'r broses i gynnwys yr holl wiriadau angenrheidiol. Caiff y staff gofal hyfforddiant i sicrhau eu bod yn gymwys ac yn fedrus. Mae datblygiad y staff gofal mewn perthynas â sesiynau goruchwylio ac arfarnu ar waith. Cynhelir cyfarfodydd trosglwyddo i rannu gwybodaeth berthnasol am lesiant y bobl.

Mae'r adeilad wedi'i leoli o fewn ei diroedd helaeth ei hun a chaiff y tiroedd hynny eu cynnal a'u cadw'n dda. Gwneir ymdrech i sicrhau bod y cartref yn lân ac yn daclus ac mae mesurau atal heintiau a mesurau iechyd a diogelwch ar waith.

## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'r staff gofal yn eu trin â pharch ac mae eu barn yn bwysig. Gwelsom aelodau o'r staff gofal yn ymateb yn brydlon i anghenion a dewisiadau'r unigolion. Mae'r bobl yn gallu ymlacio ac yn gyfforddus yng nghwmni'r staff gofal sy'n sgwrsio mewn modd caredig, gofalgar a pharchus. Mae'r staff yn parchu dewis y bobl naill ai i aros yn eu hystafelloedd gwely neu i ymuno ag eraill yn y lolfa. Dywedodd y bobl, *"They are like angels here, all the staff are good", "Mae'r staff yn wych (The staff are fantastic)", "We get everything we want, I'm very happy here, all the staff are kind."* ac *"I can use the call bell if I need anything."*

Mae'r bobl yn gwneud pethau sy'n bwysig iddynt ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau. Mae detholiad o lyfrau, gemau ac eitemau crefft ar gael yn hwylus o amgylch y cartref a dywedodd un person y gall fynd allan gyda'i deulu. Gofynnir i ymwelwyr barchu'r amseroedd bwyta ac i osgoi ymweld â'r cartref yn ystod y cyfnodau hyn.

Mae amgylchedd y cartref yn helpu'r bobl i gyflawni safon dda o lesiant. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u personoli ag eiddo'r bobl ac mae ardaloedd cymunedol i'r bobl eistedd ynddynt i sgwrsio neu gymryd rhan mewn gweithgareddau. Gwneir gwelliannau parhaus i'r dodrefn a'r gwaith paent er mwyn gwella llesiant y bobl. Dywedodd un person, *"It's home from home – it's important."*

Mae'r bobl yn cael gofal gan staff gofal sy'n gyfarwydd â'u hanghenion. Caiff yr iaith Gymraeg ei hyrwyddo, ac mae'r rhan fwyaf o'r staff yn siarad Cymraeg. Mae lefelau cadw staff yn dda ac mae rhai o'r staff wedi gweithio yn y cartref ers sawl blwyddyn. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn mynychu hyfforddiant a bod sesiynau goruchwylio yn cael eu darparu.

Gall y bobl gael gafael ar wybodaeth pan fydd ei hangen arnynt. Mae aelodau'r tîm rheoli yn hawdd mynd atynt ac mae polisi drws agored ar waith. Mae dulliau cyfathrebu da ar waith â'r bobl, y staff a pherthnasau. Mae'r rheolwr yn gefnogol, ac mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda. Mae gwybodaeth ysgrifenedig gyfredol ar gael am y gwasanaeth. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn helpu i ddiogelu'r bobl rhag niwed neu gamdriniaeth. Mae asesiadau risg ar waith i ddiogelu'r bobl a'r staff. Mae angen gwella'r broses ar gyfer dethol a fetio staff.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Caiff gwelliannau eu gwneud i'r cynlluniau personol ac mae system meddalwedd electronig newydd wedi cael ei chyflwyno. Mae'r system yn cynnwys cynlluniau personol ac asesiadau risg. Caiff anghenion gofal y bobl eu dogfennu'n unol â'u gofynion unigol ac felly maent yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Roedd y cofnodion electronig a welsom yn fanwl ac yn llawn gwybodaeth. Mae'r staff yn adnabod y bobl yn dda ac yn gallu cynnig dewisiadau dyddiol priodol iddynt.

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gallu dewis ble i dreulio eu diwrnodau, naill ai yn eu hystafell wely neu yn un o'r ardaloedd cymunedol. Yn ôl yr hyn a welsom, mae rhai o'r bobl yn eistedd yn un o'r lolfeydd neu yn eu hystafelloedd gwely unigol. Clywsom y staff gofal yn rhyngweithio â'r bobl mewn modd ystyrlon. Clywsom y staff gofal yn siarad Cymraeg a Saesneg â'r bobl yn unol â'u dewisiadau, er mwyn helpu'r bobl i deimlo eu bod yn perthyn. Mae amrywiaeth o weithgareddau ar gael i wella llesiant y bobl. Mae gwirfoddolwyr yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd i annog y bobl i gymryd rhan mewn sesiynau canu a chrefft. Dywedodd un person wrthym, *“We have bingo, jigsaws, books, games and a shop.”* Dywedodd person arall, *“It’s a lovely place, we can go out, I go out with my family.”*

Mae'r bobl yn aros mor iach â phosibl o ganlyniad i'r gofal a roddir a'r atgyfeiriadau amserol sy'n cael eu gwneud at weithwyr iechyd proffesiynol. Caiff adolygiadau a chyfarwyddiadau eu dogfennu'n ofalus yng nghynlluniau personol y bobl, gan gynnwys unrhyw newidiadau sydd eu hangen er mwyn diwallu anghenion y bobl.  Yr uwch-staff gofal sy'n gyfrifol am roi a storio meddyginiaethau. Caiff anghenion deietegol y bobl eu hystyried. Mae'r bobl yn cael digon o fwyd a diod. Caiff pwysau ac iechyd cyffredinol y bobl eu monitro a'u cofnodi. Gwelsom fod y bobl yn cael dewis o ran prydau bwyd a byrbrydau, a bod dewis amgen yn cael ei ddarparu os na fydd y bobl yn hoffi'r fwydlen benodol ar gyfer y diwrnod hwnnw.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn lân ac yn gartrefol. Nid oes unrhyw beryglon baglu yn y coridorau ac nid oes unrhyw beth yn rhwystro'r allanfeydd tân. Mae ystafelloedd y bobl yn lân ac yn daclus. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd ag eitemau sy'n bwysig iddynt ac sy'n eu helpu i deimlo'n gartrefol. Mae rhaglen cynnal a chadw ar waith yn y cartref; mae heulfan newydd yn cael ei hadeiladu i ddarparu mwy o ardaloedd cymunedol i'r bobl. Mae system gan ddarparwr ffôn newydd yn cael ei gosod er mwyn gwella'r rhwydweithiau cyfathrebu a'r rhyngrwyd. Mae un lolfa fach yn cael ei defnyddio i storio cadeiriau olwyn ar hyn o bryd wrth i'r gwaith adeiladu fynd rhagddo. Mae'r llenni a'r defnyddiau, y lloriau a'r gwaith paent yn rhan o raglen adnewyddu dreigl. Mae'r staff yn hysbysu'r tîm rheoli am unrhyw waith atgyweirio y mae angen rhoi sylw iddo, ac mae'r tîm yn ymateb yn brydlon. Gwelsom fod amserlenni glanhau ar waith ar gyfer pob ystafell. Roeddent wedi cael eu llofnodi i ddangos bod y gwaith wedi'i gwblhau.

Mae asesiadau iechyd a diogelwch ar waith. Caiff gwiriadau diogelwch tân eu cwblhau bob wythnos a gwneir cofnod o dymereddau oergelloedd/rhewgelloedd. Cawsom sicrwydd gan y tîm rheoli bod y gwiriadau hyn yn cael eu cynnal gan aelod o staff dynodedig ac y byddai dyddiadau profion yn cael eu nodi yn y dyfodol. Caiff y cyfarpar trydanol ei brofi'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel. Mae'r bobl yn cael cyfarpar sy'n addas ar gyfer eu gofal; caiff y cyfarpar ei wasanaethu'n unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio'n iawn. Cafodd y cartref sgôr safonau hylendid bwyd o bump allan o bump. Mae gan y bobl gynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng, sy'n benodol i'w hanghenion cymorth unigol.

Mae mesurau rheoli heintiau ar waith o hyd er mwyn sicrhau bod y bobl yn ddiogel rhag heintiau. Mae gan bob ystafell wely gyfleusterau toiled/sinc en-suite ac mae gan rai ystafelloedd gawod hefyd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth ac mae prosesau ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn gweithio yn y gwasanaeth ac yn siarad â'r bobl, eu perthnasau, y staff a gweithwyr proffesiynol yn rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr bod y bobl yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth. Mae hefyd yn ystyried sut y gall wella'r gwasanaeth. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gallu mynegi eu barn wrth y tîm rheoli. Dywedodd un o'r gweithwyr gofal wrthym, *"We're like one big family."*

Caiff y bobl eu cefnogi gan wasanaeth sy'n cyflogi staff sy'n meddu ar y wybodaeth, y cymhwysedd a'r sgiliau i ddiwallu eu hanghenion personol. Mae'r staff gofal wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae rhaglen recriwtio yn mynd rhagddi. Mae'r cofnodion yn dangos nad yw'r holl wiriadau gofynnol yn cael eu cynnal cyn i staff ddechrau gweithio. Nid yw'r broses dethol a fetio, gan gynnwys prosesau i gael gafael ar eirdaon, yn bodloni'r gofynion statudol. Mae angen gwella'r broses dethol a fetio. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r staff yn cael cymorth i ymgymryd â hyfforddiant i'w galluogi i gyflawni gofynion eu rôl ac i ddiwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Cynigir hyfforddiant mewn pynciau gorfodol, gan gynnwys cymorth cyntaf, symud a chodi a chario a diogelu. Dywedodd y staff eu bod yn mynychu hyfforddiant a'u bod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu. Mae'r cofnodion yn dangos bod unigolion yn cael eu goruchwylio.

Mae gan y gwasanaeth ddatganiad o ddiben, sy'n disgrifio at bwy y mae'r gwasanaeth wedi'i anelu a sut y caiff ei ddarparu. Mae'r bobl yn cael gwybodaeth sy'n disgrifio'r gwasanaeth a sut i wneud cwyn.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 35 | Nid yw'r bobl yn cael eu cefnogi gan aelodau o staff a fu'n destun proses recriwtio gadarn.  Nid oes gan y gwirfoddolwyr a'r bobl (yr unigolyn sy'n trin gwallt) sy'n dod i gysylltiad rheolaidd â'r bobl yn y cartref dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). | Newydd |
| 7 | Mae angen diwygio'r Datganiad o Ddiben i gynnwys gwybodaeth a deddfwriaeth gyfredol. | Cyflawnwyd |
| 57 | Nid oes unrhyw dystiolaeth bod tymereddau oergelloedd/rhewgelloedd yn cael eu cofnodi bob dydd, gan gynnwys yr oergell a ddefnyddir i storio meddyginiaethau a ragnodir y mae angen eu storio mewn oergell. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod profion larwm tân yn cael eu cwblhau bob wythnos. Nid oes archwiliadau meddyginiaeth ar waith ar gyfer y bobl sy'n cymryd eu meddyginiaeth eu hunain.  Mae biniau heb gaead i'w gweld o amgylch y cartref. | Cyflawnwyd |
| 16 | Nid yw cynlluniau personol y bobl yn cael eu hadolygu fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau.  Nid yw'r adroddiadau monitro misol sy'n cynnwys asesiadau risg a'r ddogfen Dyma fi yn gyson. Rhaid adolygu cynlluniau personol y bobl yn ôl yr angen, ond o leiaf bob tri mis. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 29/02/2024